Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Hawdd ei ddeall

Mehefin 2016





Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC**
**Swyddfeydd y Llywodraeth**
**Rhydycar**
**Merthyr Tydful**
**CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol:


**Ffôn:** 0300 7900 126
**Ebost:** cssiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.aggcc.org.uk

**Ffôn:** 0300 062 8163
**Ebost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

**Gwefan y Gydarolygiaeth:** www.arolygucymru.com


OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27822 ISBN digidol 978-1-4734-6935-8



Mae’r ddogfen Hawdd ei Darllen hon yn hir iawn.





Mae hyn oherwydd ei bod yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu gael yr holl wybodaeth am arolygiad eu gwasanaethau.



Os ydych chi am wybod am bethau da, edrychwch am y bocsys gwyrdd.



Os ydych chi am wybod beth sydd angen ei newid, edrychwch am y bocsys pinc.




# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Sut wnaethon ni'r gwaith** | 7 |
| **Diolch** | 12 |
| **Cyngor Conwy** | 13 |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | 38 |










# Cyflwyniad



Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.



Rydyn ni'n gwirio a yw cynghorau lleol yn helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



Rydyn ni'n gwirio a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn:



- gweithio'n dda



- o safon dda




- diogel



Gofynnon ni gwestiynau am bob un o'r 22 cyngor lleol.




Aethon ni i weld 6 chyngor lleol.




Rydyn ni wedi ysgrifennu:




- adroddiad Cymru gyfan



- adroddiad ar gyfer pob un o'r 6 chyngor lleol




**Dyma'r adroddiad am Gonwy.**



Gweithion ni'n agos â:

- Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a'r Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr. Helpon nhw ni i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Gwnaethon nhw ein helpu ni i wirio sut mae gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.




Mae'r adroddiad hwn yn dweud:




- beth wnaethon ni ei ddarganfod




- beth rydyn ni'n meddwl y mae angen i Gyngor Conwy a'r Bwrdd Iechyd ei wneud




# Sut wnaethon ni'r gwaith




Roedden ni am gael yr atebion i 3 chwestiwn:




1. A yw Cyngor Conwy a'r Bwrdd Iechyd yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol?

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

2. Pa mor dda y mae Cyngor Conwy a'r Bwrdd Iechyd am:

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board




- roi gwybodaeth, cyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau



- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor




- cynllunio gofal




3. A oes gan Gyngor Conwy a'r Bwrdd Iechyd weledigaeth glir, ac a yw pobl eraill yn cefnogi'r weledigaeth honno?




Dyma beth wnaethon ni i gael yr atebion.




Edrychodd AGGCC ar Gyngor Conwy.




- Llenwodd Cyngor Conwy holiaduron i ni.




- Edrychon ni ar adroddiadau arolygiadau am wasanaethau yng Nghonwy.




- Siaradodd Pobl yn Gyntaf Cymru gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan â'u haelodau a phobl eraill yng Nghonwy. Dywedon nhw wrthon ni beth ddywedodd pobl.



- Treulion ni bythefnos yng Nghonwy.

    - edrychon ar ffeiliau 20 o bobl



    - cawson ni wybod mwy am 8 o'r bobl hynny



    - siaradon ni â staff, cynghorwyr, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau gwirfoddol



    - aethon ni gyfarfod Cyswllt Conwy



- aethon ni sgwrs gan Gyngor Conwy a'r Bwrdd Iechyd am sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd

Edrychodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y Bwrdd Iechyd.



- Cawson ni wybod am 4 person sy’n cael cymorth y mae gofal iechyd a chymdeithasol yn talu amdano.



- Edrychon ni ar eu ffeiliau. Siaradon ni gyda gweithwyr proffesiynol. Gwnaethon ni gwrdd â’r bobl a’u teuluoedd.




- Siaradon ni â staff iechyd a rheolwyr y Bwrdd Iechyd.




- Cawson ni gyfarfod i nyrsys cymunedol, therapi iaith a lleferydd, rheolwyr timau iechyd a rhywun o’r tîm diogelu.




- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd a Chyngor Conwy gyflwyniad i ni am y ffordd y maen nhw’n gweithio gyda’i gilydd.




# Diolch




Rhoddodd llawer o bobl eu hamser, eu help a'u syniadau. Rydyn ni am ddweud diolch i:



- bobl ag anableddau dysgu



- rhieni a gofalwyr




- staff a rheolwyr



- darparwyr gwasanaeth



- sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid eraill

# Cyngor Conwy

## Ynglŷn â Chyngor Conwy




Mae tua 116,000 o bobl yn byw yng Nghonwy.




Rydyn ni'n credu bod tua 2,170 o oedolion ag anableddau dysgu yng Nghonwy.




Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy yn gwybod am tua 518 o oedolion ag anableddau dysgu.




- Mae gan 268 o bobl reolwr achos.




- Mae 184 o bobl dim ond yn cael adolygiad blynyddol.




- Mae 449 o bobl yn cael gwasanaethau gan Wasanaethau Cymdeithasol Conwy.




- Mae 49 yn 65 oed neu’n hŷn.

## Pethau da am yr hyn mae Cyngor Conwy yn ei wneud




Dyma rai pethau da am Gyngor Conwy:




- Y rhan fwyaf o'r amser mae Cyngor Conwy yn dda am wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am wasanaethau ac yn cael y cymorth iawn.



- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl bethau da am eu gofal a'u cymorth.



- Mae Cyngor Conwy am wrando ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chyswllt Conwy.





- Mae rhai rheolwyr gofal yn gwneud gwaith da iawn. Mae angen i Gyngor Conwy ddysgu ganddyn nhw.



- Mae llawer o wahanol fathau o wasanaethau dydd.



Dyma rai pethau da am staff:




- mae staff yn meddwl am fywyd y person, nid am wasanaethau yn unig.




- mae staff yn gwybod bod y Gymraeg yn bwysig.



- mae staff yn ceisio trin pobl â pharch.




- mae staff gofal iechyd a chymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd





## Trefnu a chynllunio



Mae Cyngor Conwy yn newid sut maen nhw'n trefnu eu gwasanaethau. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws pan fydd pobl ifanc yn dod yn oedolion. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws i gael help yn gyflym, cyn i bethau fynd yn rhy anodd. Mae hyn wedi cymryd llawer o amser ac egni.




Nawr mae angen i Gyngor Conwy weithio'n galed er mwyn i bobl gael gwell gofal a chymorth.




Yn 2009-2010, ysgrifennodd Conwy gynllun am ba wasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Nid yw'r rhan fwyaf o'r cynllun wedi gweithio'n dda iawn. Gweithiodd rannau o'r cynllun yn dda, fel:



- cynllun ar gyfer llety



- gweithio gyda Chyswllt Conwy



Mae Cyngor Conwy yn wynebu toriadau. Bydd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol lawer llai o arian. Mae pobl yn meddwl yn barod ei fod yn anodd i'r timau rheoli gofal gefnogi pawb. Bydd hyn yn waeth yn y dyfodol.




Mae angen i'r Cyngor ysgrifennu cynllun newydd am sut i wario ei arian.



Mae angen i'r cynllun ddweud sut fydd y Cyngor yn dewis, prynu a gwirio gwasanaethau.

Mae angen i'r Cyngor ysgrifennu'r cynllun yn gyflym.



Mae angen i'r Cyngor weithio ar y cynllun newydd gyda:



- phobl ag anableddau dysgu



- gofalwyr teuluol

- iechyd



Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn meddwl y gall Cyngor Conwy fod yn siŵr:



- bod pobl bob amser yn cael y cymorth iawn



- bod y Cyngor yn cael gwerth da am arian wrth brynu gwasanaethau



## Hyfforddiant



Gall staff gael hyfforddiant. Mae angen i bobl ag anableddau dysgu gael rhoi eu barn yn fwy am hyfforddiant i staff.

Mae angen i'r Cyngor wirio os yw hyfforddiant yn gwneud gwahaniaeth.




## Cynlluniau pobl



Mae rheolwyr gofal:



- yn cael gwybod pa gymorth sydd ei angen ar berson




- yn ysgrifennu cynllun ar sut gall rywun gael y bywyd y maen nhw ei eisiau




- yn gwirio a yw cynllun rhywun yn rhoi'r bywyd y maen nhw ei eisiau iddyn nhw




Mae Cyngor Conwy fel arfer yn gwneud y pethau hyn yn dda ac ar yr amser

iawn. Ond mae angen i Gyngor Conwy wneud yn well.

Mae cael pethau'n iawn hyd yn oed yn fwy pwysig i:



- bobl sydd angen llawer o gymorth



- pobl sy'n anodd rhoi cymorth iddyn nhw



- pobl y gallai fod angen mwy o gymorth arnyn nhw cyn i bethau fynd yn waeth.



Mae angen i Gyngor Conwy wirio ffeiliau pobl i wneud yn siŵr eu bod nhw wedi gwneud y pethau hyn yn dda i bob person.



Mae Cyngor Conwy yn bwriadu adolygu pob un o'r cynlluniau byw â chymorth 24/7. Bydd y Cyngor yn cael arbenigwr i edrych ar gynllun pob person. Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn helpu'r Cyngor i gefnogi pobl yn well.



Weithiau, os yw'r Cyngor yn credu bod rhywun yn ddiogel, dydy pobl ddim yn edrych yn ddigon agos ar sut maen nhw am i'w bywyd fod.




Mae hyn yn digwydd yn aml gyda chartrefi gofal a byw â chymorth. Nid yw pawb yn cael y cyfle i fod yn fwy annibynnol. Mae arian yn cael ei wastraffu weithiau. Mae angen i'r Cyngor wneud rhywbeth am hyn.



Nid yw pobl sydd angen llawer o gymorth yn cael dweud eu dweud llawer drwy Gyswllt Conwy.



## Gofalwyr teuluol




Mae rhai gofalwyr teuluol yn dweud nad ydyn nhw'n gallu cael y cyngor a'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw.






Nid oes gan 184 o bobl reolwr gofal. Mae hyn yn golygu nad oes ganddyn nhw a'u gofalwr berson a enwyd i gysylltu â nhw am gyngor.




## Cadw pobl yn ddiogel

Mae Cyngor Conwy yn gwybod bod yn thaid iddo wneud yn siŵr bod pawb yn ddiogel.



Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith y mae'n ei wneud i gadw pobl yn ddiogel yn dda.

Mae angen i Gyngor Conwy barhau i wirio eu bod yn gwneud y pethau iawn i gadw pobl yn ddiogel.

Mae gan y Cyngor wasanaeth sy'n edrych ar:




- gadw pobl yn ddiogel



- gwrando ar bobl




- penderfynu a ddylai rhyddid rhywun gael ei gyfyngu
- delio gyda phryderon pobl am gartrefi gofal.



Mae'n syniad da cael hyn i gyd mewn 1 gwasanaeth.



Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr bod pob rhan o'r gwasanaeth yn siarad gyda'i gilydd ac yn dysgu gan ei gilydd.



Weithiau mae angen cyfyngu ar ryddid pobl i'w cadw'n ddiogel.



Mae'n rhaid i staff ofyn am ganiatâd cyn y gallan nhw wneud penderfyniad am gyfynu ar ryddid person.




Mae mwy na 400 o bobl yn aros i glywed a fydd eu rhyddid yn cael ei gyfyngu.




Nid yw Cyngor Conwy yn gwybod faint o'r bobl hyn sydd ag anableddau dysgu.



Mae'r Cyngor wedi gofyn i rai staff helpu gyda cheisiadau. Ond mae angen i'r staff hynny wneud eu gwaith eu hunain hefyd.



Mae'r Cyngor yn gwybod bod hyn yn broblem ddifrifol. Mae'r Prif Weithredwr am i'r broblem gael ei datrys.




Rydyn ni'n credu bod angen gwell cynllun ar Gyngor Conwy i ddatrys y broblem ddifrifol hon.



**Gweithio gydag eraill**



Mae Cyswllt Conwy yn gwneud gwaith da.



Mae rheolwyr a staff wedi gwneud gwaith da wrth gefnogi Cyswllt Conwy.




Mae llawer o bobl yn cael gwybodaeth gan Gyswllt Conwy.



Oherwydd Cyswllt Conwy, gall pobl ddweud eu barn, cymryd rhan a hyd yn oed helpu i redeg gwasanaethau.



Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaeth yn falch bod Cyngor Conwy am weithio gyda nhw.



Ond mae darparwyr gwasanaeth yn dweud nad yw Cyngor Conwy yn eu cynnwys nhw wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Gweithio gydag Iechyd**



Mae staff gofal iechyd a chymdeithasol yn dda am weithio gyda'i gilydd. Maen nhw yn yr un swyddfa. Maen nhw'n rhannu gwybodaeth.



Yn aml, mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhannu'r gost o gefnogi rhywun. Ond mae'n waith caled i drefnu hyn.




Mae Cyngor Conwy yn ceisio gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd, ond mae'n anodd.




Am 4 blynedd, nid yw iechyd wedi cael rhywun i ofalu am wasanaethau anableddau dysgu.




Nid yw gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol wedi ysgrifennu gweledigaeth sy'n cael ei rhannu. Nid ydyn nhw'n rhannu cyllideb. Nid ydyn nhw'n rhedeg gwasanaethau gyda'i gilydd




## Cynllunio gyda’r Bwrdd Iechyd




Mae Gogledd Cymru wedi dechrau ysgrifennu cynllun o’r enw Symud Ymlaen gyda’n Gilydd.




Mae’n dweud beth mae Cyngor Conwy a’r Bwrdd Iechyd am i ddigwydd.



Ond nid yw’n dweud:



- pa wasanaethau sydd eu hangen ar bobl



- sut i ddewis a phrynu gwasanaethau



- sut i rannu arian




- sut i weithio gyda'i gilydd.



Nid yw pobl yn siŵr a fydd y cynllun yn cael ei gytuno. Nid yw pobl yn siŵr a fydd pobl yn gwneud beth mae'r cynllun yn ei ddweud.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





Bydd angen i bawb, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i wneud yn siŵr y gall y Bwrdd Iechyd weithio gyda'r Cyngor.

# Beth mae angen i Gyngor Conwy ei wneud



- Siarad a gwrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol am y dyfodol. Cynnwys pobl a'u gofalw teuluol yr mewn meddwl am ffyrdd newydd i gefnogi pobl.





- Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gael gwybod beth sydd ei angen ar bobl. Mmeddwl gyda'i gilydd am ffyrdd newydd i gwrdd ag anghenion pobl. Ysgrifennu cynllun am brynu'r gwasanaethau cywir.




- Edrych ar y ffordd y mae'n penderfynu pa gymorth sydd ei angen ar bobl a gwirio'r ffordd y mae'n cynllunio eu cymorth. Gwirio bod pobl yn cael y cymorth iawn i fyw y bywyd y maen nhw am ei gael.





- Gwirio'r ffordd y mae'n rhedeg ei wasanaeth ar gyfer cadw pobl yn ddiogel. Yn enwedig os efallai y bydd angen cyfynu ar ryddid person.




Mae rhestr aros ar gyfer rhoi caniatâd i gyfyngu ar ryddid person. Ysgrifennu cynllun yn dweud beth fydd y Cyngor yn ei wneud am y rhestr aros.




- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddweud wrth y Cyngor pa uwch reolwr fydd yn gweithio gyda nhw.




**Rhaid i Gyngor Conwy ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Dylai Cyngor Conwy anfon copi o'u cynllun aton ni.**




**Byddwn ni'n gwirio a yw Cyngor Conwy yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud yn ei gynllun.**

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd




Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhedeg gwasanaethau iechyd yng Nghonwy.



Gall pobl ag anableddau dysgu ddefnyddio'r un gwasanaethau iechyd â phawb arall.



Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhedeg gwasanaethau iechyd i bobl ag anableddau dysgu yn unig. Mae ganddyn nhw:



- Tîm Cyswllt Iechyd i helpu pobl i fyw bywyd iach




- staff iechyd yn y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol



- Gwasanaeth Anghenion Cymhleth i bobl mewn argyfwng, neu sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn trefnu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu mewn pedwar grŵp:



- pobl sy'n mynd i drwbl gyda'r gyfraith neu y gallen nhw fynd i drwbl gyda'r gyfraith



- pobl angen lefelau uchel iawn o ofal a chymorth



- pobl sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad




- pobl â phroblemau iechyd meddwl.




## Pethau da am wasanaethau iechyd yng Nghonwy

Dyma rai pethau da am wasanaethau iechyd yng Nghonwy:



- mae staff yn annog pobl i ddweud eu barn.




- mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi mwy o arian i'r Tîm Diogelu



- mae staff yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw ei wneud os ydyn nhw'n meddwl bod rhywun mewn perygl neu'n cael ei anafu.




- gall pobl gael gwasanaethau yn Gymraeg.



- y rhan fwyaf o'r amser, mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.




- mae staff iechyd yn gwneud eu gwaith yn dda.



- mae rhai staff yn aros yn ei swyddi, felly maen nhw'n dod i adnabod pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.



- mae pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn dweud eu bod nhw'n cael cymorth da gan staff iechyd.




Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith da i helpu pobl ag anableddau dysgu i:




- aros allan o’r ysbyty




- cael bywyd mwy iach.



## Cynllunio




Mae staff yn gwybod bod angen mwy o wasanaethau ar Gonwy. Maen nhw’n ei chael yn anodd rhoi’r cymorth iawn ar gyfer:



- pobl sydd angen llawer o ofal a chymorth



- pobl sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad



Ond nid yw’r Bwrdd Iechyd yn gwybod pa wasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Nid oes cynllun ganddyn nhw i wneud yn siŵr y gall pobl yng Nghonwy gael y gwasanaethau iawn.



Mae rheolwyr iechyd yn newid o hyd. Mae hyn yn ei wneud yn anodd i gynllunio.



Mae angen i reolwyr a staff siarad a gwrando ar ei gilydd yn fwy.




Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd anableddau dysgu.



Rydyn ni'n credu bod staff yn gwneud pethau'n dda.




Ond nid ydyn ni'n credu bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth a chynllun clir ar gyfer y dyfodol.




Nid ydyn ni'n credu bod y Bwrdd Iechyd yn gwirio os yw pobl ag anableddau dysgu yn cael y gwasanaethau iechyd cywir.



## Gweithio gydag eraill




Weithiau mae sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol yn gwneud gwaith da gyda'i gilydd.



Ond mae staff yn defnyddio systemau cyfrifiadurol gwahanol. Mae hyn yn golygu nad oes gan unrhyw un yr holl wybodaeth am y person mewn un lle canolog.




Mae rhai pobl wedi cael cais i roi eu barn am wasanaethau iechyd ar draws Gogledd Cymru.




Ond nid oes ffordd gan y Bwrdd Iechyd i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol yng Nghonwy am gynlluniau ar gyfer gwasanaethau iechyd.

# Beth mae angen i'r Bwrdd Iechyd ei wneud




- Gwneud yn siŵr bod ganddo gynllun a phenderfynu pwy fydd yn rhedeg pethau.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau anableddau dysgu yn cael eu rhedeg yn dda ac yn defnyddio arian yn dda.





- Gwneud cynllun ar gyfer y gwasanaethau iawn i bobl sydd angen llawer o ofal a chymorth ac i bobl sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad.




- Gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod beth yw'r gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu.




- Cael y systemau cyfrifiadurol iawn i staff wneud eu gwaith yn dda.





**Mae gan y Bwrdd Iechyd bythefnos i ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd anfon y cynllun i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.**




Mae'n rhaid i'r cynllun ddweud




- beth fydd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud am y pethau yn yr adroddiad hwn




- pryd fyddan nhw'n gwneud y pethau hyn.



Dylai'r Bwrdd Iechyd wirio nad yw'r un problemau yn digwydd yn rhannau eraill y Bwrdd Iechyd.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddweud wrth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru pan fyddan nhw wedi gwneud beth mae'r cynllun yn ei ddweud.